Page

# Gwnewch gais nawr am grantiau o £70,000 i gefnogi sefydliadau adfywio treftadaeth adeiledig

24/05/2023




This Grade II listed former bank in Bacup, Lancashire was restored as a co-working hub and residential apartments

Bydd y rhaglen DU gyfan yn darparu ariannu a chefnogaeth i ymddiriedolaethau a arweinir gan gymunedau sy'n achub adeiladau hanesyddol ac yn rhoi bywyd newydd iddynt er budd pobl leol.

Gall elusennau, mentrau cymdeithasol a sefydliadau eraill sy'n gwarchod adeiladau hanesyddol bellach fynegi diddordeb mewn cymryd rhan yn y rhaglen Ymddiriedolaethau Datblygu Treftadaeth. Mae'r cynllun tair blynedd hwn yn cael ei gyflwyno gan y Gronfa Treftadaeth Bensaernïol (AHF) drwy bartneriaeth gwerth

£5 miliwn gyda Chronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol.

## Beth mae'r rhaglen yn ei gynnig

Bydd deg i 13 o sefydliadau'n cael eu cefnogi i fynd yn Ymddiriedolaethau Datblygu Treftadaeth sy'n gynaliadwy yn ariannol drwy ariannu, cyngor a chefnogaeth.

Ein gweledigaeth yw creu rhwydwaith Deyrnas Unedig gyfan o sefydliadau sy'n gydnerth yn ariannol i adfywio adeiladau segur a chefnogi adfywio mewn rhai o leoedd a chymunedau mwyaf difreintiedig y wlad.

Bydd gan sefydliadau llwyddiannus fynediad at:

- dair blynedd o arian refeniw, hyd at £70,000 y flwyddyn
- grantiau prosiect i achub ac ailddefnyddio adeiladau hanesyddol, hyd at £75,000 y prosiect
- cefnogaeth gan gymheiriaid i fagu hyder a gwybodaeth
- cynghorwyr prosiect ymgynghorol gydag arbenigeddau sy'n cynnwys llywodraethu, ymgysylltu cymunedol, cynllunio busnes a chynaladwyedd amgylcheddol

Mae'r Gronfa Treftadaeth Bensaernïol eisoes wedi dangos effaith gadarnhaol y dull hwn o gefnogi sefydliadau treftadaeth adeiledig. Bu i gynllun peilot llwyddiannus gefnogi saith Ymddiriedolaeth Datblygu Treftadaeth rhwng 2020 a 2023.



Cyn ei adfer

## Arbed ac ailddefnyddio adeiladau hanesyddol er budd cymunedau

Mae Ymddiriedolaethau Datblygu Treftadaeth yn bartneriaethau neu sefydliadau cymunedol nid-er-elw sy'n berchen ar bortffolio o adeiladau hanesyddol ac yn eu hailddatblygu i wneud gwahaniaeth cadarnhaol parhaol dros bobl yn eu hardal.

Fe wnaeth un ymddiriedolaeth, Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adeiladau Tyne & Wear, adfywio rhes o dai masnachwyr Sioraidd yn Sunderland. Roedd un t? mewn cyflwr difrifol.



Ar ôl adfer

Trwy bartneriaeth â Pop Recs, sef siop recordiau wib yn wreiddiol, mae'r ymddiriedolaeth wedi trawsnewid yr adeilad yn siop goffi, lleoliad cerddoriaeth a bar, gan ychwanegu seilwaith diwylliannol mawr ei angen i'r ddinas a gwella'r ardal.

## Pwy sy'n gymwys?

Gall sefydliadau o bob cwr o'r DU wneud cais, o'r rhai sydd ond yn cychwyn arni i sefydliadau aeddfed sydd am ddatblygu ymagwedd newydd.

Mae'r AHF am gefnogi elusennau a mentrau cymdeithasol a all gyflwyno adfywio lleol sy'n rhoi treftadaeth yn y sbotolau.

## Sut i wneud cais

Cyflwynwch fynegiad o ddiddordeb drwy wefan y Gronfa Treftadaeth Bensaernïol. Mae angen i chi allu dangos:

- uchelgais i dyfu: mae gennych y potensial i ddatblygu portffolio o adeiladau treftadaeth a fydd yn cyflwyno buddion lleol ac yn cynhyrchu incwm dros yr hir dymor
- adeiladau treftadaeth mewn angen yn eich ardal: prosiectau posib mewn lleoedd sydd ag anghenion a chyfleoedd economaidd a threftadaeth
- partneriaid lleol: awdurdod lleol cefnogol a'ch parodrwydd chi i feithrin cysylltiadau gweithio

## Amserlen ymgeisio

- cyflwyno datganiad o ddiddordeb erbyn 9am ar 26 Mehefin 2023
- gwahoddir sefydliadau ar y rhestr fer i gyflwyno cais llawn rhwng Gorffennaf a Medi 2023
- disgwylir penderfyniadau Rhagfyr 2023

## Gweithio mewn partneriaeth i gyflwyno ein nodau

Mae'r rhaglen bartneriaeth hon wedi'i hariannu gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol a'i chyflwyno gan y Gronfa Treftadaeth Bensaernïol.

Meddai Eilish McGuinness, Prif Weithredwr Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol: “Fel ariannwr treftadaeth mwyaf y DU, mae'n bwysig ein bod yn cydweithio â sefydliadau sy'n rhannu ein huchelgeisiau ac a fydd yn ein helpu i gyflawni ein gweledigaeth o werthfawrogi a gofalu am dreftadaeth ac i'w chynnal ar gyfer pawb yn y dyfodol.

“Ein partneriaeth gydag AHF yw un o'r ffyrdd y bydd modd i ni wneud gwahaniaeth pendant i bobl, lleoedd a'r amgylchedd naturiol.”

## Cofrestrwch ar gyfer sesiwn friffio ar-lein

Mae'r Gronfa Treftadaeth Bensaernïol yn cynnal sesiynau ar-lein i helpu pobl i ddeall y rhaglen a dysgu mwy am sut i wneud cais. Bydd y sesiynau briffio rhithwir hyn yn cael eu cynnal fel a ganlyn:

- 1am – 12 hanner dydd Gwener 26 Mai
- 10am – 11am dydd Gwener 2 Mehefin
- 1pm – 2pm dydd Iau 8 Mehefin
- 10am – 11am dydd Mercher 14 Mehefin



## rdeb hefyd mewn ...

Castell Lincoln. Llun gan: Colin McLean Photography



Engagement Manager Dawn Bainbridge (centre) on the job – visiting a jazz archive project

## heritage identity




School children take part in the Bradford Book Project

## Bradford's diverse community heritage celebrated and shared thanks to local knowledge